Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

8 Hydref 2021

Annwyl Elin

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2021

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym ar 11 Hydref 2021, ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 er mwyn:

- Tynnu **Affganistan, Angola, yr Ariannin, Bolivia, Botswana, Brasil, Burundi, Cape Verde, Chile, Ciwba, Congo (Gweriniaeth Ddemocrataidd), Costa Rica, De Affrica, Eritrea, Eswatini, Ethiopia, Georgia, Guiana Ffrengig, Guyana, Gwlad Thai, Indonesia, Lesotho, Malawi, Mayotte, Mecsico, Mongolia, Montenegro, Mozambique, Myanmar, Namibia, Nepal, Paraguay, Réunion, Rwanda, Seychelles, Sierra Leone, Somalia, Sudan, Suriname, Tanzania, Trinidad a Tobago, Tunisia, Uganda, Uruguay, Ynysoedd Philippines, Zambia a Zimbabwe** o'r "rhestr goch" o wledydd a thiriogaethau.

- Ychwanegu **yr Aifft, Albania, y Bahamas, Bangladesh, Bosnia a Herzegovina, Brasil, Columbia, Chile, De Affrica, Fietnam, Georgia, Ghana, Gogledd Macedonia, Grenada, Gwlad Thai, Gwlad yr Iorddonen, Hong Kong, India, Indonesia, Jamaica, Kenya, Kosovo, Maldives, Moldofa, Montenegro, Morocco, Namibia, Nigeria, Oman, Pacistan, Serbia, St Kitts a Nevis, St Lucia, St Vincent a'r Grenadines, Twrci, Wcrain ac Ynysoedd Philippines** i'r rhestr o wledydd y mae eu rhaglenni ac ardystiadau brechu yn bodloni'r gofynion fel y gellir cydnabod bod unigolyn wedi'i frechu'n llawn.
- Mae'r rhai sydd wedi'u brechu'n llawn o dan raglen frechu'r Cenhedloedd Unedig hefyd yn cael eu cydnabod fel rhai sydd wedi'u brechu'n llawn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Galluogi defnyddio Tystysgrif COVID Digidol yr UE i arddangos statws prawf negatif.

- Diwygiadau technegol a chanlyniadol ychwanegol.

Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol; o ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services